

Arolygiad o Wasanaethau Hŷn Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cynnwys

Cefndir	4
Gwasanaethau atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn (dros 65 oed) sy'n byw yn y gymuned	5
Cryfderau a Blaenoriaethau ar gyfer Gwella	6
Llesiant	8
Pobl – llais a dewis	12
Partneriaethau ac integreiddio – Cydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau	16
Atal ac ymyrraeth gynnar	19
Dull	22
Y Gymraeg	22
Cydnabyddiaethau	22

Cefndir

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi bod mewn grym ers bron tair blynedd. Y Ddeddf yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n dwyn cyfraith gwasanaethau cymdeithasol ynghyd ac yn ei moderneiddio yng Nghymru.

Er ei bod yn her enfawr, mae'r Ddeddf wedi cael ei chroesawu'n gyffredinol gan y sector, gan ei bod wedi cynnig cyfleoedd sylweddol ac ystyriol i newid, a hynny pan fo galw cynyddol, disgwyliadau sy'n newid a llai o adnoddau.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fynd ati i hyrwyddo llesiant y rhai y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn:

- Cefnogi pobl y mae ganddynt anghenion gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu **llesiant**.
- **Pobl** sydd wrth wraidd y system newydd drwy roi cyfle cyfartal iddynt ddweud pa gymorth y maent yn ei gael.
- **Partneriaethau a chydweithredu** sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Bydd gwasanaethau yn hyrwyddo'r broses o **atal** anghenion rhag cynyddu a rhoi'r help cywir ar yr adeg gywir.

Yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cymru Iachach', sef cynllun strategol a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae Cymru Iachach yn esbonio'r uchelgais o ddod ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ynghyd, fel y cânt eu cynllunio a'u darparu ar sail anghenion a dymuniadau unigolion, gyda llawer mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach a hyrwyddo llesiant. Mae Cymru Iachach yn disgrifio sut y dylid cydlynu dull system gyfan ddi-dor o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Gweinidogion wedi cofnodi pwysigrwydd bod â hyder ac uchelgais yn y sector i sicrhau canlyniadau. Mewn ymateb, rydym wedi datblygu ein dull o arolygu gyda ffocws ar gydweithredu a chryfderau, gyda'r bwriad o gefnogi arloesedd ac ysgogi gwelliant.

Arweinir yr arolygiad hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac fe'i cynhelir ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Gwasanaethau atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn (dros 65 oed) sy'n byw yn y gymuned

Diben yr arolygiad hwn oedd ymchwilio i ba mor dda y mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal anghenion oedolion hŷn rhag cynyddu. Nododd yr arolygiad lle mae cynnydd wedi cael ei wneud o ran gweithredu'r Ddeddf a lle mae angen gwelliannau.

Gwnaethom ni (AGC ac AGIC) ganolbwyntio ar brofiad oedolion hŷn pan fyddant yn dod i gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol ac yn symud drwyddynt nes bod angen iddynt symud i gartref gofal. Gwnaethom hefyd ystyried yr adegau pan gawsant brofiad o gydweithio rhwng gwasanaethau'r Awdurdod Lleol a gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd, neu pan fyddent wedi cael budd o hynny.

Gwnaethom werthuso ansawdd y gwasanaeth o fewn paramedrau pedair egwyddor sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (fel y'u rhestrir uchod) ac ystyried y ffordd y cawsant eu cymhwyso'n ymarferol ar dair lefel:

- Unigol
- Sefydliadol
- Strategol

Rydym bob amser yn ystyriol o ddisgwyliadau fel y'u hamlinellir yng nghodau ymarfer y Ddeddf:

- Yr hyn sy'n bwysig – canolbwyntio ar ganlyniadau
- Effaith – canolbwyntio ar ganlyniad nid proses
- Dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau – y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Rheoli – cydberthnasau
- Amserol
- Hygyrch
- Cymesur – cynaliadwyedd
- Yn seiliedig ar gryfderau
- Ataliol
- Wedi'u cynllunio a'u rheoli'n dda
- Wedi'u harwain yn dda
- Effeithlon ac effeithiol / Gofal iechyd darbodus
- Ymarfer risg gadarnhaol ac amddiffynadwy
- Y cyfuniad o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'i wreiddio mewn gwybodaeth, gyda barn broffesiynol gynnil

Cryfderau a Blaenoriaethau ar gyfer Gwella

Mae AGC ac AGIC yn tynnu sylw'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol at gryfderau a meysydd i'w gwella. Rydym yn disgwyl i gryfderau gael eu cydnabod a'u dathlu a'u defnyddio fel cyfleoedd i adeiladu arnynt. Rydym yn disgwyl i flaenoriaethau ar gyfer gwella arwain at gamau gweithredu penodol gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn ardal yr awdurdod lleol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth a chanllawiau arfer da.

Llesiant	
Cryfderau	<p>Gall pobl fod yn gynyddol hyderus bod yr awdurdod lleol yn cydnabod mai oedolion yw'r bobl orau i farnu eu llesiant eu hunain.</p> <p>Gall yr awdurdod lleol ddangos dealltwriaeth dda o'i gryfderau ei hun, meysydd lle ceir her a meysydd i'w gwella.</p> <p>Dengys tystiolaeth yng nghofnodion ffeiliau yr hyrwyddir egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Gwella cymorth i ofalwyr sydd wedi'i deilwra i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant eu hunain. Mae angen meithrin hyder y staff wrth gynnal asesiadau gofalwyr.</p> <p>Mae angen datblygu llinellau cyfathrebu clir ar gyfer ymateb i bobl sy'n profi oedi wrth gael eu hasesu; ac oedi wrth ddechrau a chael gafael ar rai meysydd gwasanaeth megis offer a gofal cartref.</p>
Pobl – llais a dewis	
Cryfderau	<p>Roedd tystiolaeth yng nghofnodion ffeiliau yn adlewyrchu pwysigrwydd hyrwyddo Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'r rhagdybiaeth mai'r oedolion sydd yn y sefyllfa orau i farnu eu llesiant eu hunain wedi'i deall ar y cyfan.</p> <p>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn wydn gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau di-dor, personol o safon uchel i bobl.</p> <p>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) yn deall anghenion dysgu a datblygu ei weithlu ac mae ganddo raglen hyfforddiant ar waith i ddiwallu ei anghenion.</p> <p>Mae pobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth drwy gymryd risgiau mewn modd cadarnhaol a defnyddio technoleg gynorthwyol.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Gwella cysondeb o ran lefel y manylder yn yr asesiadau galluedd meddyliol.</p> <p>Gwella'r trefniadau i hyrwyddo'r opsiwn o gael Taliadau Uniongyrchol.</p>

Partneriaethau, integreiddio a chydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau	
Cryfderau	Roedd enghreifftiau da o gydberthnasau gwaith agos â phartneriaid gan gynnwys y trydydd sector a'r sector annibynnol wrth ddatblygu gwasanaethau ymyrryd ac ataliol i leihau ynysu a chefnogi pobl i barhau'n annibynnol. Gwelsom fod y model Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn yn dal i fod yn ei fabandod yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ond mae ymrwymiad cryf gan bob partner allweddol i ddatblygu'r model hwn.
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Gellid achub ar fwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu strwythuredig ar y cyd ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn benodol o ran diogelu trothwyon a phrosesau.
Atal ac ymyrraeth gynnar	
Cryfderau	Cydberthnasau cadarnhau rhwng timau comisiynu a darparwyr.
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Adolygu prosesau diogelu er mwyn sicrhau bod llwybrau a threfniadau llywodraethu clir ar waith.

1. Llesiant

Roedd hunanwerthusiad yr awdurdod lleol yn adlewyrchu dealltwriaeth dda o'i gryfderau ei hun, meysydd lle ceir her a meysydd i'w gwella. Mae'r hunanymwybyddiaeth hon wedd galluogi'r uwch-swyddogion i ddatblygu cynllun busnes Strategol Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai ar gyfer oedolion a phlant yn erbyn cefndir o alw cynyddol am wasanaethau a phwysau economaidd sy'n gofyn am arbedion cyllidebol.

Mae'r fframwaith ar gyfer goruchwyliaeth y rheolwyr ac archwilio wedi'i ymgorffori'n dda yn ymarferol. Mae hwn yn galluogi'r rheolwyr i ddeall ansawdd eu gwasanaethau a'r meysydd lle mae angen cymryd camau gweithredu pellach, ac i gynllunio'n unol â hynny.

Bu newid diwylliannol tuag at egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wrth i'r staff fynd ati i hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt. Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y dull gweithredu hwn yn cael ei ymgorffori'n llawn a bod gofalmwyr yn cael yr un cyfleoedd.

Mae newidiadau yn nhîm uwch-reolwyr yr awdurdod lleol ynghyd â newidiadau deddfwriaethol wedi creu peth ansicrwydd ymysg y gweithlu.

Gall pobl ddisgwyl cymryd rhan yn y broses o nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 1.1. Mae pobl yn cymryd rhan ac yn cael eu cefnogi i nodi'r canlyniadau llesiant y maent am eu cyflawni ac roedd y ffeiliau achos yn adlewyrchu dealltwriaeth dda o amgylchiadau personol, cryfderau, rhwystrau a risgiau.
- 1.2. Mae dystiolaeth dda o waith i hyrwyddo annibyniaeth a'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu ei lesiant ei hun.
- 1.3. Roedd yr asesiadau a adolygwyd gennym yn dangos dealltwriaeth o sefyllfaoedd pobl, yn nodi'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'u hamgylchiadau penodol, ac yn pennu cynllun ar gyfer sut y byddant yn sicrhau eu canlyniadau personol.
- 1.4. Nid oeddem yn hyderus bod pobl bob amser yn cael copi o'u hasesiadau na'u cynlluniau gofal. Mewn rhai achosion, nid oedd bob amser yn amlwg pa gam gweithredu a fyddai'n cael ei gymryd yn dilyn asesiad.
- 1.5. Gwelsom fod rhai pobl yn profi oedi cyn cael asesiadau a gwasanaethau, gan gynnwys gorfod aros am offer a phecynnau gofal cartref. Nid oedd y bobl a oedd yn profi oedi bob amser wedi cael esboniad ynghylch y rheswm dros hyn. Gwelsom fod hyn yn cynnwys pobl a oedd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty yn ddiweddar, a oedd yn golygu efallai na wnaed y mwyaf o'u potensial i wella.

- 1.6. Gwelsom fod y cymorth a gynigiwyd i ofalwyr yn anghyson. Nid oedd gofalwyr bob amser yn hyderus bod y cymorth a gynigiwyd iddynt yn lleihau eu cyfrifoldeb gofal nac yn cael ei deilwra'n ddigonol i'w hanghenion penodol eu hunain. Dywedodd un gofalwr wrthym, 'she didn't want to have a sitting service while she attended a coffee morning, thank you, as she didn't like coffee mornings'.
- 1.7. Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo dull cadarnhaol o gymryd risgiau gydag ymarferwyr yn cael sgysiau gwahanol â'r person a'i deulu. Er enghraifft, roedd pobl yn cael eu cefnogi i barhau i fyw gartref â chymorth technoleg gynorthwyol os mai dyna oedd eu dewis.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 1.8. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion ffeiliau o'r newid o ymarferion traddodiadol wedi'u hysgogi gan brosesau i waith sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Dywedodd y staff wrthym yn gyson am fanteision hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r cymorth parhaus roeddent yn ei gael gan fentoriaid wrth ddatblygu ymarfer.
- 1.9. Roedd templedi'r dogfennau a adolygwyd gennym yn cynnwys ysgogiadau i nodi'r canlyniadau angenrheidiol a'r cryfderau a'r rhwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny. Nodwyd bod ansawdd y wybodaeth a gofnodwyd yn amrywio. Gwelsom rai enghreifftiau da lle cofnodwyd canlyniadau yng ngeiriau'r bobl eu hunain gyda chryfderau a rhwystrau wedi'u nodi'n glir. Gwelsom hefyd enghreifftiau o gofnodion heb y wybodaeth honno, a oedd yn llawn jargon ac nad oeddent yn berthnasol i'r sgwrs am yr hyn sy'n bwysig.
- 1.10. Roedd pwysigrwydd hyrwyddo llesiant gofalwyr yn cael ei gydnabod ar draws y gwasanaethau. Roedd mynediad gofalwyr at asesiadau a chymorth yn anghyson. I rai gofalwyr, roedd hyn yn hyblyg ac yn greadigol. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd asesiadau rhai gofalwyr wedi'u teilwra'n ddigonol i gefnogi eu hanghenion unigol. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod yr ymarfer yn cyfateb i'r uchelgais a nodwyd.
- 1.11. Mae gwasanaeth Gofalwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr. Mae'r gwasanaeth yn cynnal asesiadau gofalwyr ar ran yr awdurdod lleol ac yn llunio cylchlythyr chwarterol a anfonir at dros 3,000 o ofalwyr sy'n hysbys i'r gwasanaeth ar draws y Cyngor.
- 1.12. Dywedodd rhai gweithwyr cymdeithasol wrthym nad oeddent yn hyderus wrth benderfynu a ddylent gynnal asesiad gofalwr neu gyfeirio'r gofalwr at y

Gwasanaeth Gofalwyr a allai gynnal yr asesiad yn well yn eu barn nhw. Nid oeddem yn hyderus y rhoddwyd y cyfle bob amser i ofalwyr ystyried a oeddent am i'w hanghenion gael eu hasesu'n unigol neu ar y cyd â'r person a oedd yn derbyn y gofal fel y'i pennir yn Rhan 3 o'r Côd Ymarfer.

1.13. Yn yr asesiadau a adolygwyd gennym, nid oedd yr ymarfer cadarnhaol a ddisgrifiwyd wrthym gan ymarferwyr bob amser yn arwain at gofnodion ysgrifenedig da. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith o ran y prosesau a'r templedi i'w cysoni â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

1.14. Dywedodd y staff wrthym am gymorth cadarnhaol gan gymheiriaid, gan nodi bod eu rheolwyr yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Roedd llawer ohonynt hefyd yn gadarnhaol am y cyfleoedd hyfforddiant a oedd yn cael eu cynnig. Disgrifiodd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso y ffordd roeddent yn cael eu cefnogi wrth ymarfer yn ystod eu blwyddyn gyntaf, gan gynnwys ymgymryd â hyfforddiant a chael cyfleoedd i gysgodi ymarferwyr proffesiynol a dysgu oddi wrthynt. Roedd un tîm wedi bod yn fwy dibynnol ar weithwyr newydd gymhwyso ond disgrifiwyd yr ymdrechion i feithrin staff fel ffordd o fuddsoddi a gwella cyfraddau cadw staff.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

1.15. Mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol wedi sefydlu 'Porth' integredig. Dyma wasanaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys staff yr awdurdod lleol, y sector iechyd a'r trydydd sector, sy'n bwynt mynediad 'drws blaen' cychwynnol i wasanaethau cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot. Dywedwyd wrthym mai nod y drws blaen yw sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir ar adeg y pwynt cyswllt cyntaf yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dywedodd y staff wrthym fod y gwasanaeth yn ddatblygiad cadarnhaol, gan fod pob atgyfeiriad newydd yn mynd drwy'r Porth, gyda'r wybodaeth yn cael ei nodi ar y system a phobl yn cael eu cyfeirio i'r timau perthnasol yn ôl yr angen.

1.16. Mae'r Porth yn enghraifft gadarnhaol o gyfeiriad strategol clir. Roedd y rheolwyr strategol a gweithredol yn deall yr angen am hyfforddiant i wella sgiliau ac ymarfer. Soniodd y rheolwyr am y ffaith bod rhai aelodau o'r staff ar daith ddatblygu a bod rhai aelodau o'r staff yn addasu i newidiadau'n gyflymach nag eraill.

1.17. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym nad oedd amser bob tro i fynd ar y cyrsiau hyfforddi a oedd ar gael ac roedd lefel y newid strategol sydd ar waith yn destun pryder iddynt. Soniodd rhai o'r staff am bwysau o ran y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan ddisgrifio oriau gwaith hir a diffyg eglurder ynghylch

trefniadau gweithio hyblyg a all effeithio ar eu llesiant. Nodwyd y mater gan yr uwch-reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r tîm adnoddau dynol (AD) a oedd o'r farn nad oedd rhai o'r staff yn deall y cyfleoedd ar gyfer gweithio o bell ym mholisïau gweithio ystwyth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac, felly, nad oeddent yn achub ar y cyfleoedd hynny.

- 1.18. Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol allu AD sylweddol o fewn yr adran (rheolwr yn ogystal â 4.5 swydd). Mae'r buddsoddiad hwn wedi darparu cymorth AD i'r rheolwyr a'r staff yn ystod y cyfnod hwn lle mae'r gwasanaethau i oedolion yn cael eu hailstrwythuro. Gwneir hyn drwy gyfarfodydd wythnosol â'r pennaeth gwasanaeth, cyfarfodydd wythnosol y prif swyddog, a datblygiad cymorthfeydd AD ddwywaith yr wythnos lle gall y staff gwrdd â chynrychiolwyr AD.

2. Pobl – llais a dewis.

Drwy adolygu cofnodion ysgrifenedig a siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, cawsom sicrwydd bod barn pobl yn cael ei cheisio am y canlyniadau roeddent am eu cyflawni a bod eu dymuniadau a'u teimladau'n cael cryn sylw yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Gall pobl heb alluedd meddyliol fod yn hyderus bod ymarferwyr yn meddu ar yr hyder a'r sgiliau i gynnig y cymorth priodol. Gwelsom fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn briodol gan ymarferwyr, er budd pennaf yr unigolyn, a bod aelodau perthnasol o'r teulu ac eiriolwyr yn cael eu cynnwys yn briodol. Gwelsom fod cofnodion o asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd pennaf yn foddhaol ac y gellid eu gwella drwy roi mwy o sylw i fanylion.

Gwelsom fod ymarferwyr yn gwneud defnydd da o asesiadau risg a chardiau sgorio cytbwys mewn cysylltiad â phenderfyniadau budd pennaf er mwyn cefnogi pobl a oedd am barhau i fod yn annibynnol gartref er i risgiau gael eu nodi.

Nodwyd gennym rai meysydd i'w gwella o ran prosesau diogelu. Ni welsom bobl a oedd yn cael eu gadael yn anniogel, ond gwelsom ddiffyg eglurder gan rai partneriaid o ran trothwyon a phrosesau cofnodi gwael, ac nad oedd cofnodion strategaethau'n adlewyrchu dadansoddiad clir na'r llwybr i wneud penderfyniadau.

Mae rhai pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth cymwys wedi cael cynnig Taliadau Uniongyrchol ac yn eu defnyddio. Roedd niferoedd y gofaluwr a oedd â chynllun cymorth neu a oedd yn cael Taliadau Uniongyrchol yn isel. Mae angen gwneud mwy o waith i wella'r cyfle i fanteisio ar Daliadau Uniongyrchol.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

2.1 Pan gaiff gallu unigolion i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ei beryglu, gwelsom fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn briodol gan ymarferwyr er budd pennaf yr unigolyn, a bod aelodau perthnasol o'r teulu ac eiriolwyr yn cael eu cynnwys yn briodol.

2.2 Nodwyd gennym yng nghofnodion rhai ffeiliau nad oedd proffil gofaluwr mewn teuluoedd yn cael ei gydnabod yn llawn gan ymarferwyr ac nad oedd asesiadau gofaluwr yn cael eu cynnig bob amser. Gwelsom mewn rhai ffeiliau dystiolaeth o asesiadau lle na fu llawer o gwestiynu ynghylch cryfderau a heriau neu anghenion llesiant gofaluwr. Weithiau, nid oedd gwydnwch y gofaluwr yn cael eu nodi'n dda neu nid oedd asesiad gofaluwr yn cael ei gynnal. Gwelsom hefyd fod rhai cynlluniau gofal a chymorth yn dibynnu'n sylweddol ar gyfraniad cadarnhaol teulu a gofaluwr, ac nad oedd hyn weithiau'n ystyried blaenoriaethau llesiant y gofaluwr eu hunain mewn modd cyfannol.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

2.3 Gwelsom enghreifftiau o bwynt mynediad unigol neu wasanaeth 'Porth' yn cysylltu ag unigolion i gael eu barn ar ôl i bryderon gael eu mynegi. Gwelsom wybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn amserol. Mae ymarferwyr

gofal cymdeithasol i oedolion ac iechyd a chynrychiolwyr y trydydd sector yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd dyddiol. Dywedwyd wrthym am y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu drws blaen a rennir rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant er mwyn hwyluso integreiddio gwell. Yn dilyn cwblhau'r broses o gyd-leoli timau yn ddiweddar, gwnaethom arsylwi ar gyfarfod a oedd yn ystyried datblygu ffurflen atgyfeirio safonedig ar draws y gwasanaethau. Roedd asiantaethau partner yn rhannu'r brwdfrydedd i gyflawni'r darn o waith penodol hwn, gan rannu syniadau, nodi unrhyw risgiau ac atgyfnerthu'r cyfleoedd i ddatblygu ymarfer a fyddai'n cyflawni canlyniadau gwell i bobl.

2.4 Ni chawsom sicrwydd wrth adolygu cofnodion ffeiliau gofal a thrafod ag ymarferwyr fod y gwasanaeth diogelu yn darparu ymateb amserol a chymesur. Ni welsom dystiolaeth ddigonol i awgrymu bod y gwasanaeth yn ystyried cysylltu ag unigolion/teuluoedd a'u cynnwys yn y broses ddiogelu neu'r canlyniad yn gyson. Gwelsom nifer o gofnodion ffeiliau lle y gallai pobl fod wedi cael canlyniadau gwell petaen nhw, a'u teuluoedd lle y bo'n briodol, wedi cymryd rhan lawn yn y broses.

2.5 Gwelsom fod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod cofnodion asesiadau yn cynnwys canlyniadau personol pobl a chofnod o'r cyngor a roddwyd ar yr adnodd asesu a chymhwysedd. Mae hyn yn berthnasol i'r anghenion hynny i'w diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth a'r anghenion hynny i'w diwallu drwy wasanaethau yn y gymuned neu wasanaethau ataliol. Roedd diffyg eglurder o ran diben yn y cofnodion cyfarfodydd strategaeth a adolygwyd ac nid oedd cyfraniad na llais yr unigolyn yn weladwy yn gyson. Heb nodi'r canlyniad roedd y person am ei gyflawni, nid oedd diben y cyfarfodydd yn amlwg. Mae angen cryfhau'r ymarfer yn y maes hwn ac mae angen ffocws gwell yn ystod cyfarfodydd strategaeth i sicrhau eu bod yn nodi'r canlyniadau y mae pobl am eu cyflawni a gwella cofnodion trafodaethau.

2.6 Mae angen mwy o eglurder a chysondeb o ran gwaith diogelu. Nid oedd bob amser yn amlwg ar ba sail y gwnaed y penderfyniadau i symud ymlaen i gyfarfod strategaeth. Yn yr achosion a adolygwyd, roedd yn amlwg bod angen gwelliant er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a gofynion y fframweithiau deddfwriaethol yn well. Nodwyd hyn yn arbennig pan dderbyniwyd pobl i'r ysbyty, lle nad oedd llwybr clir yn amlwg ar gyfer rhannu gwybodaeth nac ymgymryd ag atgyfeiriadau. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod dadansoddiad da o risg yng nghofnodion ffeiliau gofal ac ailystyried gydag asiantaethau partner feini prawf y trothwyon ar gyfer atgyfeiriadau diogelu.

2.7 Gwelsom rai enghreifftiau da o daliadau uniongyrchol yn galluogi unigolion i greu a rheoli eu pecyn gofal unigryw eu hunain. Fodd bynnag, nid oeddem yn hyderus

bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig fel mater o drefn i'r rhan fwyaf o bobl, na bod pobl yn cael cymorth digonol i'w galluogi i fanteisio ar daliadau uniongyrchol. Mae angen i'r awdurdod lleol geisio sicrwydd bod gofyniad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i gynnig taliadau uniongyrchol fel dewis yn cael ei fodloni'n gyson.

- 2.8 Gwelsom enghreifftiau boddhaol yn bennaf o asesiadau galluedd meddyliol a nifer fach o enghreifftiau da. Roedd yr enghreifftiau da yn cynnwys tystiolaeth o gwestiynau clir yn cael eu gofyn yn ofalus yn y modd mwyaf addas i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan ac ymateb. Gwelsom rai enghreifftiau o asesiadau galluedd heb ddigon o fanylder i ddangos diffyg galluedd neu wneud unrhyw benderfyniad. O ystyried pwysigrwydd asesiadau galluedd meddyliol i lesiant, gofal a chymorth y bobl fwyaf agored i niwed, mae angen i'r awdurdod lleol flaenoriaethu camau i geisio sicrwydd yn gyson o ran ansawdd yr asesiadau hyn.
- 2.9 Dywedodd rhai o'r staff wrthym nad oeddent yn hyderus o ran eu gwybodaeth am yr adnoddau cymunedol sydd ar gael i gefnogi pobl i'w helpu eu hunain. Dywedodd y gweithwyr cymdeithasol a'r gweithwyr proffesiynol y cyfwelwyd â nhw eu bod yn gwerthfawrogi rôl y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol a sefydliadau eraill yn y trydydd sector fel adnoddau da. Dywedwyd wrthym nad yw'r adnodd DEWIS wedi cael ei ddatblygu na'i ddefnyddio'n ddigonol, a bod hwn bellach yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r cyfeiriadur INFOengine i fod yn adnodd i staff a phobl yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau y gall ymateb i'r bobl y mae angen cymorth arnynt i gynnal eu llesiant drwy sicrhau bod yr holl staff, pobl a phartneriaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau cymunedol.
- 2.10 Gwnaethom gwrdd â phobl sydd wedi elwa ar gael eu cefnogi gan y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a gwneud ffrindiau newydd yn eu hardal leol. Clywsom am y ffordd roeddent yn cael eu cefnogi gan y gweithiwr i fynd i sesiynau cyntaf grwpiau newydd, a'r ffordd roeddent wedi magu hyder, gan eu galluogi i ddod o hyd i grwpiau newydd a ffynonellau cymorth eraill. Roedd rhai o'r unigolion hyn hefyd yn gymwys i gael gwasanaethau gofal a chymorth gan dîm cymunedol integredig yr awdurdod lleol. Y thema gyffredin drwy gydol yr adborth oedd bod pobl wedi magu hyder a dod yn llai ynysig. Roedd brwdfrydedd ac egni tîm y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol hefyd yn cael eu cydnabod ymhlith gweithwyr proffesiynol fel rhywbeth cadarnhaol y dylid ei ymestyn ar draws holl ardaloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
- 2.11 Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ddatblygu ei Wasanaeth Technoleg Gynorthwyol, gan helpu pobl i barhau i fod mor ddiogel ac annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Darparwyd hyfforddiant i staff gwasanaethau cymdeithasol a'r bwrdd iechyd, gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.

Mae'r systemau atgyfeirio sy'n cael eu hymgorffori yn system cronfa ddata'r awdurdod lleol yn symleiddio'r broses ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd am wneud cais am y gwasanaeth. Cred yr uwch-reolwyr y gellid gwneud mwy i hybu technoleg gynorthwyol y dylid, yn eu barn nhw, ei chysylltu â'r drws blaen. Dyma faes y mae angen ei wella ymhellach ac mae angen i'r awdurdod lleol geisio sicrwydd y caiff y defnydd o dechnoleg gynorthwyol ei hyrwyddo i gefnogi annibyniaeth pobl.

- 2.12 Dywedwyd wrthym am ymrwymiad yr awdurdod lleol i hyrwyddo a chefnogi'r broses o roi Safonau'r Gymraeg ar waith. Cryfhawyd y trefniadau ar draws y gwasanaeth drwy roi Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar waith. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o asesiadau'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a dywedwyd wrthym fod sgysiau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 2.13 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi llunio 'Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn – Cynllun ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2019-2022'. Mae'r cynllun yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion sy'n cynnwys hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth er mwyn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- 2.14 Gwnaethom weld a chlywed sut roedd cynghorwyr lleol yn casglu barn pobl. Roedd hyn yn cynnwys cynnal boreau coffi a mynd i grwpiau a gweithgareddau cymunedol. Soniodd y cynghorwyr hefyd am fynd i gyfarfodydd timau a sesiynau briffio timau er mwyn trafod cynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer newid â'r staff. Roedd hyn hefyd yn eu galluogi i glywed am yr heriau roedd rhai o'r staff yn eu hwynebu. Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym am ei gynlluniau i ymgynghori â phobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar y broses o ailfodelu gwasanaethau i oedolion.
- 2.15 Caiff cwynion eu rheoli gan swyddog cwynion dynodedig sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y swyddog cwynion wrthym y bu'n bresennol yng Nghyfarfod y Rheolwyr Oedolion lle roedd cwynion yn eitem safonol ar yr agenda er mwyn sicrhau y gellir rhannu unrhyw ddysgu neu negeseuon allweddol.
- 2.16 Anogir pobl i gysylltu â'r awdurdod lleol gydag unrhyw broblemau sy'n cael eu datrys yn lleol yn bennaf yn hytrach nag yn y cam ffurfiol. Gwelsom ychydig iawn o gwynion yn cael eu cyfeirio i gam 2. Dywedwyd wrthym fod modd cynnal ymchwiliadau drwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen. Er nad oes unrhyw brotocol ffurfiol ar gyfer cynnal ymchwiliadau ar y cyd â'r bwrdd iechyd, yr ymarfer presennol yw cysylltu ag arweinydd tîm cwynion y bwrdd iechyd er mwyn cytuno ar ymateb ar y cyd.

3. Partneriaethau ac integreiddio – Cydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Gwelsom fod yr awdurdod lleol yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid a dysgu oddi wrth awdurdodau lleol eraill i ddatblygu gwasanaethau a hyrwyddo arfer gorau. Roedd cydberthynas waith dda â'r bwrdd iechyd ar lefel uwch yn amlwg gyda'r awdurdod lleol yn dechrau datblygu ffyrdd newydd o weithio tuag at nodau cyffredin. Gwelsom feysydd o gydweithio da a rhannu gwybodaeth o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol er budd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 3.1 Gall pobl fod yn hyderus y rhennir gwybodaeth yn effeithiol rhwng partneriaid, yn enwedig wrth y drws blaen, sy'n cyfrannu at nodi'r gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir.
- 3.2 Mae pobl yn elwa ar drefniadau cadarn ar gyfer comisiynu a chaffael gwasanaethau sy'n cael eu contractio ar eu rhan yn dilyn datblygu Uned Gomisiynu Gyffredin.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 3.3 Gwelsom, yn enwedig wrth y drws blaen, enghreifftiau da o rannu gwybodaeth rhwng yr awdurdod lleol a phartneriaid ym maes iechyd a'r trydydd sector. Roedd hyn yn amlwg yn y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol dyddiol.
- 3.4 Gwelsom y gwaith a wnaed i gysoni prosesau rhwng gwasanaethau drws blaen i oedolion a phlant. Mae'r cyfarfod 'drws blaen' rhwng gwasanaethau iechyd, tai a chymdeithasol yn enghraifft o waith partneriaeth cadarnhaol. Gwelsom drafodaethau agored am enghreifftiau o gydweithio, gwersi a ddysgwyd a datblygiad gwasanaethau.
- 3.5 Drwy ein cyfweiliadau â darparwyr gofal cartref, cadarnhawyd bod cydberthynas gadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau a gomisiynwyd ganddo. Cadwyd cysylltiad rheolaidd drwy fforwm chwarterol i ddarparwyr.
- 3.6 Mae rhai timau adnoddau cymunedol sydd wedi'u cyd-leoli a gwelsom enghreifftiau o gyfathrebu a rhyngweithio cadarnhaol rhwng gweithwyr proffesiynol. Gwelsom beth tystiolaeth o gydweithio, ymweliadau ar y cyd a rhannu gwybodaeth ffurfiol er budd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau gofal a chymorth.
- 3.7 Clywsom am yr ymrwymiad ar y cyd i ddarparu gwasanaethau cymunedol gwell yng Nghyngor Bwrdeistrefol Sirol Castell-nedd Port Talbot. Sefydlwyd dull partneriaeth (adran 33) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Canolraddol a reolir gan y Bwrdd Cydbartneriaeth.

3.8 Clywsom fod yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol wedi gweithio mewn partneriaeth, i gyflwyno nifer o arferion gwaith newydd a oedd wedi galluogi'r tîm cymunedol i fod yn fwy ymatebol a darbodus wrth ymdrin â'r gwaith o ryddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty. Ym mis Tachwedd 2018, dechreuodd y tîm cymunedol ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn sicrhau eu bod ar gael i'r ysbyty fel "tîm amlddisgyblaethol rhithwir". Dywedwyd wrthym fod y tîm cymunedol yn cynnal galwadau Skype â thîm yr ysbyty ddwywaith yr wythnos. Gwelwyd buddiannau niferus, gan gynnwys cyfathrebu gwell â'r ysbyty a'r gymuned, cyfle i drafod materion a chymhlethdodau yn yr ysbyty a'r gymuned, yn ogystal â dealltwriaeth well o'r pwysau y mae'r ysbyty a'r gymuned yn eu hwynebu.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

3.9 Roedd y gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref i drawsnewid gwasanaethau i oedolion yn amlwg. Roedd yr aelodau etholedig a'r tîm rheoli corfforaethol yn dangos dealltwriaeth gyffredin o'r cyfeiriad a'r ysgogiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cefnogi canlyniadau gwell i oedolion hŷn yn effeithiol.

3.10 Mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu at waith y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol lle ceir ymrwymiad i weithio'n agosach gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol. Roedd yr heriau'n amlwg o ganlyniad i fuddsoddiad cyfyngedig a blaenoriaethau a phwysau gwahanol yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol a dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei ystyried.

3.11 Roedd rhai uwch-reolwyr asiantaethau partner yn gadarnhaol am y gwaith sylweddol a wnaed gan y Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion wrth adfer ymrwymiad i waith partneriaeth a meithrin cydberthynas gadarnhaol â phartneriaid. Mae asiantaethau partner bellach yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau a datblygu gwasanaethau. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith i adeiladu cymunedau cadarn ac ailfodelu gofal cymdeithasol i oedolion.

3.12 Roedd gan y Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a'r Pennaeth Nyrsio weledigaeth gyffredin o gydweithio. Dywedodd y prif swyddogion wrthym eu bod yn gadarnhaol am y dyfodol, a ddisgrifiwyd ganddynt fel un disglair, ond eu bod yn cydnabod bod gwasanaethau i oedolion yn mynd drwy gyfnod sylweddol o newid y mae angen iddo gael ei arwain a'i reoli dros y 12 mis sydd i ddod.

3.13 Gwelsom dystiolaeth o waith partneriaeth effeithiol gyda chynlluniau i ddatblygu hyn ymhellach er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau cydgysylltiedig. Er enghraifft, ceir dwy swydd prif swyddog integredig sy'n cefnogi arferion gwaith agos ac yn cynnig mewnwelediad i'r ddau sefydliad yn ogystal â deall y pwysau sydd ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

3.14 Dywedwyd wrthym fod y bwrdd rhanbarthol ar gyfer diogelu oedolion yn ystyried uno â'r byrddau diogelu plant fel rhan o ddatblygiad rhanbarthol.

Ystyriwyd bod hon yn ffordd fwy integredig o weithio, rhannu arferion ac yn gyfle i adolygu trefniadau presennol yr is-grŵp.

4. Atal ac ymyrraeth gynnar

Gall pobl fod yn hyderus y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn eu cefnogi i fyw mor annibynnol â phosibl.

Dylai'r awdurdod lleol geisio sicrwydd bod y staff yn hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol a'r rhan y gall ei chwarae wrth hyrwyddo annibyniaeth oedolion.

Dylai'r awdurdod lleol geisio sicrwydd nad yw galwadau i'r cartref yn tanseilio urddas a dewis pobl. Yn benodol, ar gyfer y bobl hynny nad oes ganddynt y galluedd i ddeall eu sefyllfa eu hunain na gwneud penderfyniadau gwybodus am y ffordd y caiff eu gofal ei ddarparu.

Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod barn pobl yn cael ei hystyried yn llawn yn ystod y broses o ailfodelu gwasanaethau i oedolion.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

4.1 Nid oedd y cynlluniau gofal a chymorth bob amser yn adlewyrchu'r egwyddor mai'r unigolyn sydd yn y sefyllfa orau i wybod yr hyn sydd ei angen arno. Roedd rhai o'r cynlluniau gofal a welsom yn adlewyrchu dull traddodiadol iawn o ymdrin ag arferion gwaith cymdeithasol, a oedd yn seiliedig yn bennaf ar argaeledd gwasanaethau penodol yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r person a chyd-lunio cynllun sy'n glir ynghylch y canlyniadau y mae yr unigolyn am eu cyflawni.

4.2 Nid oedd y timau a oedd yn derbyn atgyfeiriadau gan y Porth yn hyderus o ran ansawdd a chysondeb y cofnodi wrth y drws blaen. Gwelsant fod rhai atgyfeiriadau'n cynnwys gwybodaeth anghywir, heb unrhyw dystiolaeth o ganlyniad gwiriadau ochrol nac ymweliadau dyletswydd. Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau'n profi newid diangen a oedd yn golygu bod yn rhaid iddynt adrodd eu hanes eto.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

4.3 Roedd rhai o'r ymarferwyr y cawsom sgwrs â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r adnoddau sydd ar gael mewn cymunedau ac roedd hyn yn amlwg mewn cofnodion achos; fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson. Roedd y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yn benodol yn gallu darparu enghreifftiau o'r meysydd lle roedd cymorth wedi cael ei roi er mwyn galluogi pobl i fanteisio ar adnoddau cymunedol a oedd yn hyrwyddo eu llesiant.

4.4 Gwelsom enghreifftiau da o waith ataliol ac ymyrryd yn gynnar drwy'r Porth a chyfarfodydd brysbennu dyddiol wrth reoli risg, gan felly alluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth gartref mewn modd amserol.

4.5 Gwelsom fod pobl yn gorfod aros i becynnau gofal cartref ddechrau neu gael eu cynyddu. Roedd hyn yn effeithio ar bobl a oedd yn byw gartref a'r rhai a oedd yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Roedd hyn hefyd yn effeithio ar lwythi achosion, er enghraifft o fewn y Tîm Ail-alluogi. Gwelsom dystiolaeth nad oedd pobl a oedd wedi cwblhau cyfnodau o gymorth ail-alluogi bob amser yn gallu symud ymlaen i gael cymorth tymor hwy a chyflawni eu canlyniadau personol gan

nad oedd unrhyw wasanaethau gofal cartref ar gael. Roedd diffyg gofal cartref mewn rhai rhannau o'r sir hefyd yn effeithio ar brosesu rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o'i wasanaeth gofal cartref mewnol ac roedd wrthi'n ymgynghori â'r staff ar fodel gwasanaeth newydd ar adeg yr adolygiad.

- 4.6 Testun pryder i ni oedd gweld bod galwadau 20 munud yn cael eu comisiynu a oedd yn disgwyl i staff gofal cartref roi gofal personol, paratoi bwyd a rhoi meddyginiaeth yn ystod yr amser hwn.
- 4.7 Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym ei fod yn ceisio sicrwydd o ran amseru galwadau cartref drwy'r panel a'r broses adolygu. Mynegodd y darparwyr eu bod yn gallu atgyfeirio materion yn ôl os na ellir cwblhau tasgau mewn ffordd sy'n cynnal llesiant yr unigolyn a'u bod hefyd yn gofyn am alwadau byrrach os nad oes angen yr holl amser.
- 4.8 Dywedodd yr ymarferwyr wrthym eu bod wedi croesawu'r dull sy'n seiliedig ar "yr hyn sy'n bwysig i'r person" a'u bod yn credu ei fod wedi eu rhyddhau fel ymarferwyr. Gwelsom fod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y broses gofnodi yn cyd-fynd â'r dyheadau hyn ac yn cefnogi dull cyson a chadarn o gyflawni'r 'hyn sy'n bwysig' i unigolion.
- 4.9 Gwelsom ddefnydd effeithlon ac effeithiol o welyau ail-alluogi preswyl a gwelyau gofal seibiant mwy dwys a llai dwys. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer arloesol a gwaith partneriaeth clir gyda'r sector iechyd a Chymdeithas Tai Pobl lle roedd pobl yn cael pecyn byr o ofal ail-alluogi yn lle cael eu derbyn i gartref gofal, gan eu galluogi i ddychwelyd adref gyda chymorth technoleg gynorthwyol neu becynnau gofal cartref.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 4.10 Gwelsom dystiolaeth o gydweithio effeithiol rhwng yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a rhanddeiliaid eraill er mwyn datblygu ei ddull o ymdrin â gwaith ymyrryd yn gynnar ac atal. Un enghraifft o hyn oedd cyd-leoli amrywiaeth o wasanaethau yng ngwasanaeth Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cimla, gan gynnwys ail-alluogi yn y gymuned, therapi galwedigaethol cymunedol, cymorth synhwyrdd a thimau clinigol a arweinir gan nyrsys. Roedd yr ymarferwyr yn y ganolfan yn cydweithio i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty ac i hwyluso'r broses o'u rhyddhau'n gynharach, gyda chymorth mynediad at wasanaethau aciwt a arweinir gan feddygon ymgynghorol, gan gynnwys gofal nyrsio a gofal therapiwtig.
- 4.11 Cyfeiriodd cadeirydd y bwrdd diogelu oedolion rhanbarthol at gydweithio effeithiol rhwng asiantaethau partner i hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu oedolion, gan ddisgrifio cydberthnasau cydweithredol agored â pharodrwydd i herio ar bob lefel. Disgrifiodd y Cadeirydd y modd yr oedd digwyddiadau dysgu yn dilyn adolygiadau ymarfer oedolion a negeseuon pwerus yn llywio newidiadau i ymarfer a chadarnhaodd yr angen i gydweithio, gan ddeall nad oedd gan yr holl

partneriaid yr isadeiledd i fynd i'r afael â'r heriau ond bod ganddynt y parodrwydd a'r ymrwymiad i roi'r prosesau angenrheidiol ar waith er mwyn cydweithio.

4.12 Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud ymrwymiad clir i ddatblygu ei ddull o ymdrin â gwaith datblygu cymunedol, gan ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar asedau a lle fel elfen graidd o'i Gynllun Llesiant ar gyfer 2018-2023.

4.13 Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol wrthi'n ailfodelu Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol i Oedolion gyda'r bwriad o symud i dri thîm cymunedol sy'n seiliedig ar ardaloedd clwstwr meddygon teulu a dull cynyddrannol o ymdrin â thimau amlddisgyblaethol hollol integredig. Er i ni weld bod y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno â'r angen i newid, roedd rhai aelodau o'r staff yn mynegi rhai pryderon am y broses newid sydd ar ddod iddyn nhw hunain yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau. Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod llwybrau cyfathrebu clir ar waith i'r holl staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau ynghylch y broses o newid.

Dull

Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 60 o ffeiliau achos a chynhaliwyd cyfweiliadau dilynol â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau o'r teulu mewn perthynas ag 16 o'r rhain. Siaradwyd â rhai pobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau.

Adolygwyd 10 o asesiadau o alluedd meddyliol.

Cyfwelwyd ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig, uwchswyddogion, y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, y prif weithredwr dros dro a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.

Cynhaliwyd arolwg o staff gofal cymdeithasol rheng flaen.

Adolygwyd ymatebion i arolwg cyhoeddus.

Adolygwyd naw ffeil goruchwyllo staff a chofnodion goruchwyllo. Edrychwyd ar sampl o dair cwyn a gwybodaeth gysylltiedig.

Adolygwyd gwybodaeth am berfformiad ac amrywiaeth o ddogfennau perthnasol yr awdurdod lleol.

Cyfwelwyd â nifer o uwch swyddogion o'r bwrdd iechyd lleol a siaradwyd â staff gweithredol o'r bwrdd iechyd lleol.

Cyfwelwyd â nifer o uwch swyddogion o sefydliadau statudol ac asiantaethau partner o'r trydydd sector.

Darllenwyd y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol.

Arsylwyd ar gyfarfodydd strategaeth a chyfarfodydd dyrannu.

Y Gymraeg

Saesneg yw prif iaith yr awdurdod lleol a chynhaliwyd yr arolygiad yn unol â hynny. Cynigiwyd gwasanaeth cyfieithu mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol. Siaredir Cymraeg a Saesneg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a hefyd nifer fach o ieithoedd eraill.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: unigolion a gofalwyr, staff, rheolwyr, aelodau, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.